**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 15FED MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

### AELODAETH (15)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Olaf Cai Larsen
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
[Sedd Wag]

Linda Ann Jones
Edgar Wyn Owen
Llio Elenid Owen
Beca Roberts

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
John Pughe

Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

### Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

**6. BLAENORIAETHAU'R PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH - DIWEDDARIAD** 9 - 11

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**7. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR A DIOGELU CYNGHORWYR** 12 - 16

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith, y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol a’r Swyddog Datblygu Aelodau.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 16/3/23

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Dewi Owen (Cadeirydd), Stephen Churchman, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Anne Lloyd-Jones, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts a Beca Roberts.

**Swyddogion:** Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth dros dro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad) a Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J.Davies, Gwynfor Owen a John Pughe.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurwyd nad oedd angen datgan buddiant yn eitem 9 - Adroddiad Panel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan nad oes hawl awtomatig i barhau fel Cadeirydd, a chan fod y Pwyllgor yn ethol am flwyddyn ar y tro.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd – drafft o adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau. Gwahoddwyd sylwadau'r pwyllgor ar yr adroddiad drafft sy'n amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr a'r hyn fydd yn cael ei ddatblygu i'r dyfodol.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, diolchodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth i'w ragflaenydd, Geraint Owen, am yr holl waith a gyflawnodd yn ystod ei gyfnod yn y rôl. Diolchodd hefyd i staff y Gwasanaeth Democratiaeth a'r Swyddog Monitro am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i sylw, nodwyd y gellid trefnu bod map a chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gyrraedd ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Holiadur Aelodau, nodwyd y byddai yna ddiweddariadau cyson am faterion sy'n cael eu codi gan aelodau. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol anfon holiadur allan i'r aelodau eto eleni.
- Holwyd a oedd yna ffordd i aelodau wybod os oedd swyddog yn gweithio yn y swyddfa neu o gartref ar ddiwrnod penodol, heb yrru e-bost i'r unigolyn yn gyntaf. Mewn ymateb, nodwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau parhad gwasanaeth, ac er bod y gwasanaeth a'r rheolwyr yn gwybod pwy sydd i mewn yn y swyddfa ar unrhyw adeg, ni chredid bod y wybodaeth honno ar gael ar lefel Cyngor cyfan. Gellid gwneud ymholiadau ynglŷn â hynny, ond yn ymarferol roedd angen i aelodau wneud eu trefniadau eu hunain ar y funud.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth.**

**6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR A DIOGELWCH CYNGHORWYR**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Hyfforddiant Aelodau yn manylu ar y gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr, ynghyd â diogelwch cynghorwyr.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod yr aflonyddu o'r oriel gyhoeddus yn ystod y Cyngor Arbennig ym mis Awst y llynedd, a'r sylwadau a gafodd eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn hynny, wedi gwneud i aelodau deimlo dan fygythiad, a'i bod yn gysur bod y Cyngor yn cymryd y materion diogelwch hyn o ddifri'.
- Nodwyd ei bod yn dda iawn gweld bod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i iechyd meddwl aelodau a staff, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Holwyd pwy sy'n cynnal yr asesiadau risg ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, a beth ydi'r canllawiau ar gyfer hynny. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith yn cychwyn yr asesiad, ac yn rhannu'r wybodaeth gyda thîm o bobl, gan ystyried pa amgylchiadau posib' sy'n hysbys, neu beth allai ddatblygu. Nodwyd ymhellach bod y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi bod yn edrych ar y trefniadau sylfaenol ddylai fod mewn llaw. Roedd rhai materion yn bethau mwy strwythurol yn ymwneud â'r ystafell gyfarfod, ac eraill yn faterion rheolaethol. Gofynnid i aelodau'r cyhoedd adael eu bagiau yn y loceri y tu allan i Siambr Dafydd Orwig, a nodwyd bod mwy o waith i'w wneud ar ddyluniad yr oriel gyhoeddus yn y Siambr. Y tu hwnt i hynny, byddai'n fater o uchafu'r sefyllfa wrth i ni ddod yn ymwybodol o fygythiadau penodol, neu fod yna faterion cynhennus yn codi, er, wrth gwrs, nad oedd bob amser yn amlwg ymlaen llaw bod mater am fod yn un cynhennus.
- Nodwyd bod cyfrifoldeb ar aelodau i drafod materion sensitif mewn ffordd gall a chymedrol, gan ddefnyddio iaith weddus, ac i gadw o fewn gofynion y Cod Ymddygiad.
- Croesawyd y loceri y tu allan i Siambr Dafydd Orwig, ond nodwyd bod yr aelodau hynny sy'n eistedd yn rhes gefn y Siambr yn teimlo'n ddiamddiffyn, a bod angen rhwystr mwy sylweddol na rhaff rhwng yr aelodau a'r cyhoedd yn yr oriel gyhoeddus.

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd diogelwch personol aelodau allan yn eu wardiau, a chadarnhawyd bod hynny'n rhan o'r hyfforddiant Arwain yn Ddiogel erbyn hyn, sydd hefyd yn cyfarch materion diogelwch yn ystod cyfnod etholiad ac mewn syrjeris, ynghyd â chyngor ymarferol ynglŷn ag ymweld â chartrefi etholwyr. Nodwyd hefyd bod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ganllawiau da iawn ar ddiogelwch personol, a'u bod ar gael ar y deilsen 'Edrych ar ôl eich hun' ar y Fewnrwyd Aelodau.
- Gan gyfeirio at y sylw ym mharagraff 15 o'r adroddiad y dylai aelodau holi'r Cymorthyddion Grwpiau Gwleidyddol, ymysg eraill, am wybodaeth am gynnwys y Fewnrwyd Aelodau, nodwyd bod yna grwpiau llai ar y Cyngor, sydd heb gefnogaeth wleidyddol, a'u bod hwythau angen y neges yn ogystal.
- Gan gyfeirio at y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd fis Awst diwethaf, awgrymwyd nad oedd yn ddemocrataidd bod cyn lleied â 5 aelod o'r Cyngor yn gallu galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn, a holwyd oni ddylai'r trothwy fod yn uwch. Mewn ymateb, eglurwyd bod materion cyfansoddiadol yn derbyn sylw ar hyn o bryd, ac y byddai'r awgrym yn cael ei basio ymlaen i'r Swyddog Monitro. Nodwyd, fodd bynnag, bod yr asesu yn digwydd a bod cadeiryddion yn cael eu briffio ymlaen llaw.
- Nodwyd ei bod yn bwysig bod pawb yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael, ac anogwyd pob aelod i fynychu'r cwrs gwych ar y pwnc sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Nodwyd, er bod rhaid bod yn wyliadwrus o ran y sefyllfaoedd all godi mewn cyfarfodydd cyhoeddus, bod rhaid gochel rhag gor-ymateb a chodi ofn ar y cyhoedd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rheoli'r loceri y tu allan i Siambr Dafydd Orwig, eglurwyd bod y swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth a'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn croesawu ac yn hebrwng y cyhoedd i mewn i'r cyntedd, yn esbonio'r trefniadau ac yn gofyn iddyn nhw roi eu bagiau yn y loceri.
- Nodwyd bod y swyddogion wedi gweithredu'n sydyn iawn adeg yr aflonyddu o'r oriel gyhoeddus ym mis Awst, a bod diogelwch y swyddogion yn bwysig hefyd. Ategwyd y sylw a phwysleisiwyd bod diogelwch pawb sy'n rhan o'r cyfarfod yn bwysig, yn aelodau, swyddogion, y cyhoedd ac aelodau'r wasg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn rhoi diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Gwahoddwyd y pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant a'r camau a gynigir a'u cymeradwyo.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd ei bod yn anodd cael pobl i fynychu sesiynau hyfforddiant yn ystod y dydd, yn enwedig sesiynau byr sy'n para awr yn unig, gan fod pobl yn methu cymryd awr i ffwrdd o'u gwaith, a holwyd oni fyddai'n well cyfuno mwy nag un sesiwn i lenwi bore neu bnawn cyfan. Mewn ymateb, nodwyd bod y Gwasanaeth wedi arbrofi gyda chynnal rhai sesiynau hyfforddiant gyda'r nos, ond na fu'n llwyddiant o ran y nifer a fynychodd. Nodwyd ymhellach bod y Gwasanaeth yn agored i'r syniad o gyfuno hyfforddiant, neu unrhyw awgrymiadau eraill oedd gan yr aelodau i'w cynnig.
- Mynegwyd pryder mai ond 5 aelod oedd yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant Cydraddoldeb yn ddiweddar, a phwysleisiwyd pwysigrwydd materion fel cydraddoldeb a rhagfarn. Nodwyd, fodd bynnag, bod llawer o'r aelodau oedd ar y Cyngor cyn Mai 2022 wedi mynychu'r hyfforddiant yn y gorffennol.
- Nodwyd bod rhai sesiynau hyfforddiant yn boblogaidd, ac eraill ddim, ac awgrymwyd bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y dull o hysbysebu rhai cyfleoedd.

- Holwyd a fyddai'n bosib' rhoi recordiad o bob sesiwn hyfforddiant ar lein fel bod modd i aelodau ei wylio ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Mewn ymateb, eglurwyd bob sesiynau yn cael eu recordio ble bo'n bosib', ac ar gael ar dudalen Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn dilyn y digwyddiadau. Fodd bynnag, pe na fyddai yna aelodau di-gymraeg yn mynychu'r sesiynau, ni fyddai yna recordiad Saesneg ar gael. Pe derbynnid cais am recordiad Saesneg, byddai'n rhaid pwyso a mesur capasiti'r Tim Cyfieithu i gyfieithu sesiwn a'i osod ar y Fewnrwyd. Nodwyd hefyd nad oedd gwylio recordiad yn brawf dilys bod yr aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant, yn enwedig teitlau craidd, ac felly anogir aelodau i wneud pob ymdrech i fynychu'r teitlau craidd.
- Awgrymwyd, er y derbynnid yr angen i gofnodi presenoldeb mewn cyrsiau mandadol, efallai nad oedd hynny mor bwysig gyda theitlau dewisol.

Nododd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, yn dilyn llwyddiant y cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a gynhaliwyd ym mis Ionawr, y derbyniwyd ceisiadau i gynnal cwrs deuddydd pellach, a gofynnwyd am gefnogaeth yr aelodau i edrych a fyddai'n ymarferol cynnal y cwrs yn ystod deuddydd olaf gwyliau hanner tymor yr haf (1-2 Mehefin) gan na chynhelir unrhyw bwyllgorau'r wythnos honno.

Cytunwyd i edrych i mewn i'r opsiwn hwn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trefniadau hyfforddiant a chamau a gynigir.**

## 8. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR - PERFFORMIAD Y TÎM GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd - adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith a'r Arweinydd Tîm Democratiaeth Dros Dro yn amlinellu rhai o'r themâu a'r materion a amlygwyd yn ystod cyfres o sgyrsiau gyda chynghorwyr unigol i ganfod eu barn ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir i aelodau a beth ellir ei wneud i gynorthwyo cynghorwyr yn eu rôl.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd a fyddai'n bosib' darparu swyddfa fel man gwaith tawel ar gyfer aelodau, fel oedd yn arferol rai blynyddoedd yn ôl cyn cyfarfodydd y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd mai ychydig o gyfarfodydd oedd yn cael eu cynnal yn y swyddfeydd bellach, a bod yr arferiad o gynnig ystafelloedd i'r grwpiau gwleidyddol ar fore'r Cyngor yn parhau. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn, ond pwysleisiwyd na ellid rhoi unrhyw addewid ynglŷn â hynny.
- Nodwyd bod y Tim Gwasanaethau Democratiaeth yn darparu gwasanaeth rhagorol, gyda phawb yn barod iawn i gynnig cymorth a chefnogaeth.
- Cyfeiriwyd at anawsterau cysylltu dros ffôn â rhai o swyddogion y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod cyfrifoldeb ar bob swyddog i sicrhau bod eu rhif ffôn yn gywir ar y cyfeiriadur mewnol, a bod gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i sicrhau bod y rhifau'n dal yn gyfredol. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig bod timau yn defnyddio system lle mae galwad yn mynd drwodd i rywun arall, os nad yw swyddog ar gael. Gofynnwyd i'r aelod gysylltu â'r Gwasanaeth os oedd ganddo unrhyw enghreifftiau penodol o'r broblem.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn gwahodd y pwyllgor i lunio argymhelliad ar gyfer uwch gyflogau 2023/24 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Mai, 2023.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith y byddai taflen wybodaeth yn nodi'r newidiadau yn cael ei gosod ar y Fewnrwyd Aelodau ac yn mynd allan fel rhan o'r Bwletin wythnosol i Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd, yn sgil y newidiadau gyda phenodi aelod lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bod 1 o'r 18 uwch gyflog heb ei neilltuo, a chynigiwyd y dylid talu'r uwch-gyflog hwnnw i Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar sail y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r rôl, ac a fydd yn debygol o ddwysau i'r dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd bod yr argymhelliad wedi'i lunio ar sail y cyfrifoldebau a restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, ac y byddai'n ofynnol sicrhau'r dystiolaeth angenrheidiol i adnabod y 18fed cyflog. Eglurwyd hefyd, er nad oedd uwch-gyflog yn cael ei neilltuo bellach i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bod y Cyngor yn talu ffi aelod lleyg i'r person am y gwaith.
- Awgrymwyd y dylid gohebu â chynghorau eraill i gael dealltwriaeth o'r sefyllfa fesul awdurdod.
- Nodwyd, er ei bod yn bwysig gwybod beth mae awdurdodau eraill yn wneud, ei bod yn bwysicach cael dealltwriaeth o'r hyn mae cadeiryddion eraill Gwynedd yn wneud, ac y dylid talu'r lwfans i ba bynnag gadeiryddion sydd â'r llwyth gwaith mwyaf.
- Fel ffordd ymlaen, awgrymwyd bod y Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yng nghyswllt cyfrifoldebau a llwyth gwaith Cadeirydd y Pwyllgor hwn, gan gynnwys cymhariaeth gyda'r sefyllfa mewn siroedd eraill, ac yn argymell i'r Cyngor llawn y dylid talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor hwn, os yw'r wybodaeth ychwanegol yn teilyngu hynny.

**PENDERFYNWYD**

1. **Argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r rhestr uwch-gyflogau ar gyfer 2023/24 ac i'r dyfodol (fel y'i gwelir ym mharagraff 14 o'r adroddiad i'r pwyllgor).**
2. **Nodi bod y Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol yng nghyswllt cyfrifoldebau a llwyth gwaith Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, gan gynnwys cymhariaeth gyda'r sefyllfa mewn siroedd eraill, ac yn dymuno argymell i'r Cyngor llawn y dylid talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, os yw'r wybodaeth ychwanegol yn teilyngu hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00yh a daeth i ben am 3.45yh.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 15 Mehefin 2023 |
| **Pwnc** | Blaenoriaethau Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth – diweddariad |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Bu i mi adrodd fel rhan o'm adroddiad blynyddol cyntaf fod gennyf bedwar maes blaenoriaeth i dderbyn sylw yn ystod 2023/24. Gweler y blaenoriaethau isod er eich atgoffa
    - Diogelwch a chefnogaeth i gynghorwyr
    - Sgyrsiau datblygiad personol (sesiynau ymgynghorol)
    - Edrych ar ein trefniadau craffu
    - Cyngor di-bapur

2. Mae adroddiad penodol yn cael ei gyflwyno i chi heddiw ar ddiogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr. Mae'r adroddiad yma felly yn ceisio mynd i'r afael a dau o'r blaenoriaethau eraill, sef sgyrsiau datblygiad personol a Cyngor di-bapur.

3. Er gwybodaeth, ni fyddaf yn adrodd ar yr elfen trefniadau Craffu i'r pwyllgor hwn gan mai trefniadau llywodraethiant sydd dan sylw ac felly angen adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Sesiynau Ymgynghorol**

4. Mae pob Aelod wedi derbyn gwahoddiad i fanteisio ar Sesiwn Ymgynghorol.

5. Mae pawb yn wahanol, gyda chryfderau amrywiol ac ystod eang o anghenion datblygol. Efallai nad yw'r unigolyn yn siwr pa fath o ddatblygiad sydd arnynt ei angen, na chwaith beth sydd ar gael.

6. Bydd sgwrs anffurfiol gydag arbennigwr o'r maes Dysgu a Datblygu yn gyfle i chi drafod eich rôl fel Aelod, gan ystyried y pethau sy'n dod yn hawdd i chi, y pethau sy'n heriol ac efallai yn peri pryder, a'ch dyhead ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd yn gyfle i drafod sut yr hoffech ddysgu – beth sy'n eich siwtio chi?

7. Deilliant y sesiwn fel arfer yw Cynllun Datblygu Personol (rhaglen wedi ei theilwra i chi) gydag amrediad o elfennau Dysgu a Datblygu.

8. Gellir cysylltu gyda'r Swyddog Datblygu Aelodau (Cara Williams) i drefnu Sesiwn Ymgynghorol.

**Cyngor di-bapur**

9. Rwyf eisoes wedi adrodd ar y bwriad i symud at fod yn Gyngor di-bapur er mwyn lleihau ein ôl troed carbon a gwireddu arbedion trwy leihau costau argraffu a phositio (yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn).

10. Mae'r sail ar gyfer gweithredu yn glir:

- budd amgylcheddol o fod yn ddi-bapur, yn arbennig yn sgil fod y Cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ers mis Mawrth 2019
- budd o gyfathrebu yn electroneg gyda gwybodaeth yn cael ei rannu ar ei union gan osgoi unrhyw broblemau allai godi gyda gwasanaeth post yn araf yn effeithio ar dderbyn papurau pwyllgor ayyb.
- tystiolaeth fod modd gweithio'n ddi-bapur yn effeithiol iawn.
- yr angen i gyflawni'r cynlluniau arbedion perthnasol yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 03/03/2023

11. Rydym wedi cychwyn paratoi ac annog pawb i symud yn ddi-bapur ers tro, ac yn cydnabod fod newid arferion yn gallu cymryd amser a'i fod yn gallu bod yn heriol i ddechrau.

12. Ar ddechrau cyfnod y Cyngor newydd bu i'r Cynghorwyr gael dewis o'r cyfarpar TG oedd am ateb eu gofynion orau wrth fynychu cyfarfodydd (o bell ac ar leoliad). Rhoddwyd cynnig o sgrin ychwanegol er mwyn galluogi gweithio'n effeithiol yn ddi-bapur, gan ddefnyddio un sgrin i ddarllen agenda, a'r sgrin arall i fod yn rhan o'r pwyllgor (ymuno â zoom).

13. Bu i ni barhau i gynnig copiau papur o agenda yn dilyn Etholiad 2022, ac mae 29 Cynghorydd wedi dewis derbyn copiau papur yn gyfredol. Roedd hynny ar sail dewis yr unigolion.

14. Yn sgil penderfyniad y Cyngor llawn mae'r cyllidebau argraffu a phostio wedi eu lleihau yn sylweddol, gyda chyllidebau bychan bellach ar ôl ar gyfer darpariaeth bapur lle bo gofynion meddygol penodol.

15. Yn dilyn y penderfyniad lluniwyd asesiad effaith cydraddoldeb cyn symud ymlaen gyda llunio cynllun ar gyfer gweithredu. Mae'r asesiad yn nodi camau lliniaru sy'n cynnwys darparu copiau papur ble bo anghenion meddygol. Yn ogystal mae'r asesiad effaith yn adnabod bod gweithredu yn electroneg yn gallu bod yn fwy buddiol a hygyrch gan fod modd newid maint y sgrin a'r ffont ayyb i gyd-fynd gyda gofynion unigolyn.

16. Yn ogystal rydym hefyd wedi ymgynghori gydag arbennigwyr iechyd a diogelwch i adnabod meini prawf safonol i adnabod ‘cyflyrau iechyd’ penodol i’w hystyried yn gymwys ar gyfer derbyn copiau papur – os mai dyna ddewis yr unigolyn.

17. Rydym eisoes wedi dod i’r casgliad fod gorfodi’r newid a gwneud hynny dros nos ddim am fod yn synhwyrol. Rydym yn cydnabod fod newid arferion tymor hir yn gallu bod yn anodd, ac felly rydym yn awyddus iawn i’ch cefnogi drwy’r newid hwn.

18. Fel a nodwyd, mae 29 yn derbyn copiau papur yn gyfredol ac felly byddwn yn cynnig:

    a. Sgriniau i’r rhai sydd heb dderbyn sgriniau hyd yma (os ydynt yn dymuno eu cael)

    b. Rhoi cynnig o hyfforddiant ar ddefnyddio’r cyfarpar – hyfforddiant ar sail 1-1 fydd hyn mae’n debyg gan fod cwestiynau pawb am fod ynghylch eu defnydd personol nhw. Bydd rhaid i’r Cynghorwyr fynd ati i drefnu’r dyddiad ac amser gyda’r swyddog priodol.

    c. Gohebu gyda’r Cynghorwyr i esbonio’r uchod a rhoi amser i unigolion gysylltu a chyflwyno tystiolaeth os ydynt yn parhau i fod angen copiau papur

19. Rydym yn ymwybodol y bydd rhai ethriadau i’r rheolau ac wrthi’n gweithio ar lunio’r eithriadau hyn yn gyfredol.

20. Y bwriad yw ceisio symud at fod mor ddi-bapur a phosib o gychwyn tymor yr Hydref.

**Argymhelliad**

21. Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 15 Mehefin 2023 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr a Diogelwch Cynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,Rheolwr Democratiaeth ac Iaith<br>Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Adroddwyd ar faterion Cefnogaeth i Gynghorwyr a diogelwch Cynghorwyr i gyfarfod y Pwyllgor yma ar 16 Mawrth 2023. Cafwyd cryn drafodaethau am y pryderon sydd gan Gynghorwyr yn ystod y cyfarfod.

2. Bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adrodd yn ei adroddiad blynyddol fod diogelwch Cynghorwyr yn un o'i brif flaenoriaethau ar gyfer 2023-24. Mae dau brif thema wedi dod i'r amlwg.
   - Mae pwysau cynyddol ar Gynghorwyr ac felly'r angen i sicrhau **cefnogaeth a chynhaliaeth iechyd a lles** ar eich cyfer.
   - Yn ogystal, mae materion **diogelwch Cynghorwyr** wedi dod i'r amlwg yn sgil digwyddiadau cenedlaethol a digwyddiadau o fewn y Cyngor ac i Gynghorwyr unigol.

3. Bwriad yr adroddiad yw eich diweddaru o'r gwaith sydd wedi digwydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn y maes.

   **Cyfathrebu**

4. Yn ystod cyfarfod diwethaf y pwyllgor, a thrwy sgyrsiau gyda rhai Cynghorwyr, mae wedi dod i'r amlwg nad yw pob Cynghorydd yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael i'ch cynorthwyo chi i edrych ar ôl eich iechyd a'ch lles. Mae hyn yn cynnwys eich iechyd corfforol a'ch iechyd meddyliol.

5. Mewnrwyd Aelodau. Mae tudalen ar y Mewnrwyd Aelodau 'Edrych ar ôl dy hun' yn cyfeirio at y gefnogaeth sydd ar gael.

6. Mae gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw pob Cynghorydd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael yma. Cynhelir sesiwn cyflwyno gwybodaeth byr ar ol y pwyllgor heddiw i holl aelodau'r pwyllgor. Gofynnir i chi rannu'r genadwri ymhlith eich cyd-aelodau o'r ddarpariaeth sydd ar gael.

7. Bwletin Aelodau. Yn sgil y sylwadau ynghylch diffyg ymwybyddiaeth, penderfynwyd fod angen tynnu sylw cyson at y gefnogaeth sydd ar gael yn y maes. Mae darn penodol yn fisol yn y Bwletin Aelodau sy'n cael ei rannu gyda phob Cynghorydd yn tynnu sylw at wahanol elfen o'r gefnogaeth sydd ar gael fesul mis. Mae'n debyg eich bod eisoes wedi sylwi ar yr isod yn y bwletin Aelodau.

## Eich Llesiant



8. Mae bwletin pob mis yn canolbwyntio ar faes penodol o ran eich llesiant meddyliol neu eich diolgelwch.

| | |
|---|---|
| Mawrth | Roedd y bwletin cyntaf yn tynnu eich sylw at Gynhadledd a gynhaliwyd i Reolwyr y Cyngor ar y thema "Llesiant meddyliol – symud y sgwrs ymlaen' gan rannu recordiad o'r digwyddiad gyda chi a thynnu sylw at yr hyfforddiant Arwain yn Ddiogel sydd ar gael. |
| Ebrill | Hyfforddiant oedd dan sylw ym mis Ebrill hefyd, gan hyrwyddo'r cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl. |
| Mai | Gwasanaeth Cwnsela Medra oedd dan sylw yn y bwletin ym mis Mai. Mae gwybodaeth lawn ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau, ond atgoffir yr holl Gynghorwyr ei fod yn wasanaeth cwbl gyfrinachol y gallwch gysylltu yn uniongyrchol â Medra, ac nid oes angen i chi gysylltu â swyddog o'r Cyngor i gael mynediad.<br>Roedd y bwletin hefyd yn tynnu sylw at Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Hunan Iaddiad sydd i'w gynnal ar 21/06/20203. |

**Hyfforddiant**

9. Mae nifer o seisynau hyfforddiant wedi eu cynnig dros y misoedd diwethaf yn benodol yn sgil eich ceisiadau chi fel Cynghorwyr i gael cefnogaeth ym maes iechyd meddwl a diogelwch.

10. Iechyd Meddwl. Mae nifer o sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnig yn y maes.

    a. Ddechrau mis Ionawr cynhaliwyd sesiwn dau ddiwrnod 'Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl' a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn.
    b. Roedd cwrs arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Mehefin, ond yn anffodus ni ddaeth digon o enwau i law i gyfiawnhau rhedeg y cwrs. Byddwn yn ail ymweld a'r gofyn ar gyfer cynnal y cwrs eto yn nhymor yr Hydref.
    c. Yn ogystal, yn sgil cais gan Gynghorwyr bydd Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Hunanladdiad yn cael ei gynnig ar 21 Mehefn. Bydd y cwrs hanner diwrnod yn fuddiol i'ch cynorthwyo i adnabod arwyddion ymhlith y cyhoedd yn eich wardiau, gwybod sut i ymateb a gwybod ble i'w cyfeirio am gymorth pellach.

11. Diogelwch. Fel y nodwyd, mae'r trais ac aflonyddu y mae rhai Aelodau wedi ei ddioddef yn cynyddu'r straen arnynt, ac mae'r cwrs "Arwain yn Ddiogel" wedi ei addasu er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'n cynnwys trafodaeth a chamau ymarferol ynghylch diogelwch personol i'ch cynorthwyo i gadw'n ddiogel a lleihau'r straen arnoch chi. Ar gyfer yr aelodau hynny sydd wedi mynychu y cwrs beth amser yn ôl, ond heb dderbyn yr elfen newydd ar ddiogelwch personol, mae sesiwn byr ar gael ar gyfer yr elfen diogelwch yn unig.

12. Fe welwch isod grynodeb o'r digwyddiadau sydd wedi eu cynnal a'r niferoedd a fu ar yr hyfforddiant.

    Cyfryngau Cymdeithasol – Rheoli eich enw da ar-lein 15/12/22
    5 Aelod wedi mynychu. Roedd hwn yn gwrs oedd wedi'i gomisiynu'n ar gais Aelodau.
    Cyfryngau Cymdeithasol – sut i greu cynnwys da (18/01/23)
    5 Aelod wedi mynychu. Eto, trefnwyd y cwrs ar gais Aelodau.
    Arwain yn ddiogel a diogelwch personol 27/4/23
    6 allan o 30 wedi mynychu – 4 wedi gadael cyn diwedd y sesiwn, felly 2 yn unig wedi derbyn yr elfen newydd ar ddiogelwch personol
    Eich Diogelwch Personol chi 27/4/23 (cwrs penodol ar gyfer Cynghorwyr oedd eisoes wedi dilyn y Cwrs Arwain yn ddiogel)
    10 allan o 23 wedi mynychu
    Helpu pobl trwy'r argyfwng costau byw – 26/4/23 a 10/5/23
    16 wedi mynychu – roedd y sesiwn yn agored i bawb oedd â diddordeb. Bydd sesiwn arall i ddilyn yn fuan.

13. Mae'r niferoedd sydd wedi bod yn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau wedi bod yn eithaf isel, ond mae'r adborth rydym wedi ei dderbyn o'r sesiynau yn gadarnhaol. Mae neges pellach wedi ei yrru at bob aelod sydd heb gael cyfle hyd yma i fynychu'r cwrs 'Arwain yn ddiogel" yn eu hannog yn gryf i fynychu. Gofynnir i chi fel aelodau'r pwyllgor i annog eich cyd-Gynghorwyr i gymryd mantais o'r ddarpariaeth hynod bwysig yma sydd ar gael i chi.

14. Nodwyd bod yr adborth o’r sesiynau wedi bod yn gadarnhaol, ac mae materion ymarferol ynghylch diogelwch personol wedi eu awgrymu gan Gynghorwyr yn ystod y sesiwn “Eich Diogelwch Personol Chi” a gynhaliwyd ddiwedd Ebrill. Roedd pump prif elfen yn codi, yn cynnwys

   a. Bygythiad o droseddau cyfundrefnol (organised threat)
   b. Anghydfod rhwng cymdogion
   c. Hyfforddiant ymdrin â phobl/sefyllfa anodd neu peryglus (de-escalation)
   ch. Fforymau trafod
   d. Llyfryn cefnogaeth

15. Mae gwaith yn digwydd ar geisio symud ymlaen i ymateb i rai o’r materion a godwyd. Mae arweiniad cyffredinol ynghylch ‘bygythiad o droseddau cyfundrefnol’ ac ‘anghydfod rhwng cymdogion’ yn cael eu datblygu. Mae’n rhaid bod yn ofalus wrth greu arweiniad, nid yw’n fater hawdd gan fod pob achos unigol am fod yn wahanol.

16. Rydym eisoes wrthi’n ceisio cysylltu gyda darparwyr posib er mwyn trefnu’r hyfforddiant ar gyfer ymdrin â phobl a sefyllfaoedd anodd neu peryglus. Mae hyfforddiant ‘Pendantrwydd’ wedi ei drefnu ar gyfer yr 20fed o Fedi fydd o fudd gyda hyn – cofrestrwch gyda’r Swyddog Datblygu Aelodau (Cara Williams).

17. Penderfynwyd peidio creu llyfryn gwybodaeth benodol ar gyfer materion diogelwch gan fod y wybodaeth ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Byddai risg wrth brintio copiau papur i unrhyw wybodaeth fod wedi dyddio, a methu ar y wybodaeth diweddaraf. Cafwyd cais hefyd i sefydlu fforymau trafod anffurfiol a byddwn yn ystyried y cais yng nghyd-destun unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer adrodd ar fwlio ayyb.

**Materion ymarferol**

18. Adroddwyd eisoes fod camau ymarferol eisoes ar waith i sicrhau diogelwch Cynghorwyr, diogelwch mynychwyr y Siambr a diogelwch staff yn ystod cyfarfodydd aml leoliad. Adroddwyd ar y camau sydd wedi eu cyflawni eisoes, gan gynnwys asesiadau risg ayyb yn y cyfarfod diwethaf.

19. Ers y cyfarfod diwethaf mae camau pellach wedi eu cymryd ar fesurau diogelwch ffisegol yn y Siambr. Mae trefniadau cryfach yn gwahanu’r oriel gyhoeddus o lawr y Siambr, gan ganiatau mynediad pan fo’r gofyn i unigolion pan fo angen mynychu’r Siambr megis yn y Pwyllgor Cynllunio neu i ofyn cwestiwn i’r Cyngor Llawn.

20. Rydym hefyd yn ymwybodol eich bod fel Cynghorwyr allan yn y gymdeithas trwy’r amser. Mae camau penodol y gellir eu hystyried ar gyfer gwarchod eich diogelwch chi a’ch teulu, megis peidio cyhoeddi eich cyfeiriad cartref ar y safle we. Mae canllawiau defnyddiol ynghylch ystyriaethau diogelwch cyn cynnal syrjeris yn y gymuned hefyd wedi eu cynnwys ar y Mewnrwyd

Aelodau, ac yn cael eu trin a'u trafod yn ystod y sesiynau hyfforddiant Arwain yn ddiogel fydd o gymorth i chi.

**Iechyd Meddyliol**.

21. Un o'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael i chi yw Gwasanaeth Cwnsela Medra. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrinachol, ac mae modd i chi gyfeirio eich hun at y gwasanaeth – mae manylion sut i wneud hynny ar y safle mewnrwyd aelodau.

**Rhannu gwybodaeth ymehllach**.

22. Fel cynrychiolwyr yr holl Aelodau ar y pwyllgor, gofynnir i chi rannu'r wybodaeth hyn gyda'ch cyd-aelodau i sicrhau ein bod i gyd yn cymryd cyfrifoldeb o edrych ar ôl ein hunain a'n gilydd.

**Argymhelliad**

23. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.